

AAT Uned Ymwybyddiaeth Busnes Lefel 3



Yn gwyno

Mae Diploma Lefel 3 AAT mewn Cyfrifeg yn cynnig hyfforddiant technegol mewn cyfrifeg ac mae'n ddelfrydol i unrhyw un sy'n dymuno dilyn gyrfa mewn cyfrifeg cyllid.

Yr uned byddwch yn ei phrynu yma yw uned Ymwybyddiaeth Busnes y Diploma lefel 3 AAT mewn Cyfrifeg.

Bydd yr uned hon yn darparu dealltwriaeth o'r busnes, ei amgylchedd a'r dylanwad y mae hyn yn ei gael ar strwythur sefydliad, a rôl a pherfformiad ei swyddogaeth gyfrifyddu. Byddwch yn archwilio'r dibenion a'r mathau o fusnesau sy'n bodoli, a hawliau a chyfrifoldebau rhanddeiliaid allweddol. Byddwch yn dysgu beth yw'r amgylcheddau micro- a macro-economaidd a'r effaith a dylanwad y gall newidiadau yn yr amgylcheddau hyn eu cael ar berfformiad a phenderfyniadau. Bydd hyn yn cynnwys dealltwriaeth o'r gyfraith fusnes sylfaenol sy'n ymwneud â pharatoi datganiadau ariannol ar gyfer gwahanol fathau o endidau. Byddwch yn dysgu cysyniadau risg, mathau o risg a rheoli risg ar gyfer busnes.

Byddwch yn dod i ddeall y pwysigrwydd o foeseg broffesiynol a rheolaeth foesegol, a sut mae'r swyddogaeth gyllid yn rhyngweithio â swyddogaethau busnes allweddol eraill i wella effeithlonrwydd gweithredol. Byddwch yn dysgu egwyddorion i ddadansoddi a barnu

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

sefyllfaoedd moesegol a allai godi yn y gweithle. Byddwch hefyd yn deall sut mae gweithredu'n foesegol yn deillio o werthoedd personol a sefydliadol craidd, yn ogystal â'r fframwaith cyfreithiol a rheoleiddiol ar gyfer gwrth-wyngalchu arian.

Mae rôl y cyfrifydd yn newid. Ysgogir y newid hwn yn arbennig gan dechnolegau sy'n dod i'r amlwg, felly byddwch yn dysgu am y mathau o newidiadau technolegol sy'n effeithio ar y proffesiwn cyfrifyddu ac yr effaith y mae'r rhain yn ei gael ar berfformiad, dadansoddi data a phrosesau cyfrifyddu. Sgîl bwysig i gyfrifyddwyr yw'r gallu i ddadansoddi, deall a dehongli gwybodaeth a gesglir ac a gyfathrebir mewn fformatau gwahanol. Byddwch yn dod i ddeall y defnydd a'r effaith o ddata mawr, a nodweddion allweddol 'blockchain', deallusrwydd artifisial (AI) a chyfrifyddu cwmwl. Byddwch yn ennill y sgîliau sydd eu hangen arnoch i ddelweddu a dehongli data i gefnogi dealltwriaeth a gwneud penderfyniadau ar gyfer busnesau.

Dyma'r cwrs i chi os...

... Ydych wedi cwblhau Tystysgrif Sylfaen Lefel 2 AAT mewn Cyfrifeg

... Ydych am ddatblygu eich sgîliau a'ch gwybodaeth ym maes cyfrifeg

... Ydych am weithio mewn lleoliad cyfrifeg

Beth fyddaf yn ei wneud?

Byddwch yn gwella ar y sgîliau a wnaethoch eu datblygu o Dystysgrif Lefel 2 mewn Cyfrifeg ac yn ennill amrywiaeth o sgîliau cyfrifyddu hanfodol a chymhleth, gan gynnwys cynnal cofnodion cyfrifyddu costau a pharatoi adroddiadau a ffurflenni.

Mae'r Lefel 3 AAT mewn Cyfrifeg yn cynnwys pedair uned orfodol

Ymwybyddiaeth Busnes – Byddwch yn dysgu am wahanol fathau o fusnesau, strwythurau, dulliau llywodraethu, a'r fframwaith cyfreithiol y maent yn gweithredu ynddo ac effaith yr amgylchedd micro a macro-economaidd

Cyfrifeg Ariannol: Paratoi Datganiadau Ariannol* - Byddwch yn dysgu sut i gymhwyso'r egwyddorion o gadw cyfrifon cofnod dwbl uwch, caffael a gwaredu asedau anghyfredol. Byddwch yn paratoi cyfrifiadau dibrisiant, addasiadau diwedd cyfnod ac yn cynhyrchu balans prawf estynedig.

Technegau Cyfrifo Rheolaeth - Byddwch yn dod i ddeall y pwrpas a'r defnydd o gyfrifo rheolaeth ac yn dysgu'r technegau costio a thaenlen sy'n angenrheidiol ar gyfer sefydliadau, yn ogystal â'r egwyddorion y tu ôl i reoli arian parod.

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Prosesau Treth ar gyfer Busnes* - Byddwch yn archwilio ac yn cymhwyso gofynion y ddeddfwriaeth ar TAW, yn cyfrifo TAW, yn adolygu a dilysu'r broses o wneud ffurflenni treth yn ddigidol (MTD), yn dod i ddeall egwyddorion y gyflogres, ac yn astudio'r goblygiadau o wneud gwallau, ffeilio a thalu'n hwyr, a sut i adrodd am wybodaeth sy'n ymwneud â TAW.

Trwy ymgeisio am hyn, byddwch yn prynu modiwl Ymwybyddiaeth Busnes.

Er mwyn ennill y cymhwyster Lefel 3 mewn Cyfrifeg, bydd angen i chi gwblhau pob un o'r pedwar modiwl uchod, gallwch brynu pob modiwl ar wahân.

*Er mwyn ennill y cymhwyster Lefel 3 mewn Cadw Cyfrifon, bydd angen i chi gwblhau'r ddau fodiwl gyda *, gallwch brynu pob modiwl ar wahân.

Gwybodaeth Ychwanegol

Mae'r cwrs hwn yn rhedeg ar:

Ddydd Llun 9yb tan 5yh (rhannol yn y dosbarth ac yn rhannol ar-lein).

Neu

Ddydd Llun 5yh tan 6yh a dydd Mawrth 6yh tan 9yh (yn rhannol yn y dosbarth ac yn rhannol ar-lein).

Ar ôl cwblhau Lefel 3 mewn Cyfrifeg yn llwyddiannus gallwch fynd ymlaen at Ddiploma Lefel 4 AAT mewn Cyfrifeg y gallwch ei wneud yn llawn amser neu'n rhan-amser yn Coleg Gwent. Ar ôl ei gwblhau gallwch ymgymryd â rôl mewn cyllid.

Ar ôl cwblhau Lefel 3 mewn Cadw Cyfrifon yn llwyddiannus gallwch fynd ymlaen at AAT Lefel 3 mewn Cyfrifeg drwy gwblhau'r ddwy uned ychwanegol - Ymwybyddiaeth Busnes a Thechnegau Cyfrifo Rheolaeth, naill ai fel dysgwr rhan-amser neu ddysgwr llawn amser.

Costau eraill:

Llyfrau tua £30 y modiwl

Cofrestriad AAT (yn daladwy i AAT) £240

Mae hwn yn gwrs 'rholio-ymlaen / rholio i ffwrdd' gyda dyddiadau cychwyn hyblyg. Rydym yn recriwtio myfyrwyr drwy gydol y flwyddyn.



TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Mae hwn hefyd yn gwrs dysgu cyfunol (cymysgedd o wyneb yn wyneb gydag athro mewn ystafell ddosbarth traddodiadol a gweithgareddau dysgu gan ddefnyddio technolegau digidol o gartref).

Apply online at www.coleggwent.ac.uk

studentrecruitment@coleggwent.ac.uk | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)

